

Adroddiad Arolygu Gofal Iechyd Annibynnol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Salon Harddwch Classy Claws,
Hengoed

Dyddiad yr arolygiad: 11 Awst 2025

Dyddiad cyhoeddi: 11 Tachwedd 2025



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:


- Annibynnol - rydym yn ddiduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac yn dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym	10
	• Ansawdd Profiad y Claf	10
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	14
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	19
4.	Y camau nesaf	21
	Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	22
	Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith	23
	Atodiad C - Cynllun gwella	27

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd yn Salon Harddwch Classy Claws ar 11 Awst 2025.

Cynhaliwyd yr arolygiad gan un o arolygwyr gofal iechyd AGIC.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Cwblhawyd cyfanswm o 14 o holiaduron. Gwnaethom hefyd siarad â'r staff a oedd yn gweithio yn y gwasanaeth yn ystod ein harolygiad. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Noder bod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

2. Crynodeb o'r arolygiad

Dynodiad fel Gwasanaeth sy'n Peri Pryder

Nododd ein harolygiad ar 11 Awst 2025 risgiau sylweddol i ddiogelwch cleifion a staff. O ganlyniad, yn unol â'i gweithdrefnau uwchgyfeirio a gorfodi, trefnodd AGIC gyfarfod gwasanaeth sy'n peri pryder ar 12 Awst 2025 i drafod canfyddiadau'r arolygiad. Cafodd Salon Harddwch Classy Claws ei ddynodi'n Wasanaeth sy'n Peri Pryder a chyhoeddwyd Hysbysiad o Benderfyniad brys i atal y cofrestriad tan 10 Medi 2025.

Gwnaeth AGIC gynnull cyfarfod gwasanaeth sy'n peri pryder ar 05 Medi 2025 i drafod y cynnydd a wnaed gan y lleoliad. Penderfynwyd bod Salon Harddwch Classy Claws yn wasanaeth sy'n peri pryder o hyd a chyhoeddwyd Hysbysiad o Benderfyniad brys i ymestyn y cyfnod atal tan 22 Hydref 2025.

Ymdriniwyd â'n pryderon penodol lyn dilyn yr arolygiad hwn o dan ein proses diffyg cydymffurfio. Mae manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau a'r camau unioni a gymerwyd gan y gwasanaeth ar unwaith wedi'u nodi drwy'r adroddiad ac yn [Atodiad B](#).

Ceir manylion y gwelliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn, yn [Atodiad C](#).

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC fod y gwasanaeth a ddarperir yn 'dda iawn'. Cyfeiriodd y sylwadau at staff gofalgar, proffesiynoldeb a gofal cefnogol. Mae'r lleoliad yn hyrwyddo ffyrdd iach o fyw yn ystod y ymgynghoriadau; fodd bynnag, nid oedd taflenni hybu iechyd ar gael. Gwelsom fod y cleifion yn cael eu trin ag urddas a pharch. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw bolisi ysgrifenedig ar hebryngwyr nac arwyddion yn dweud wrth y cleifion am yr opsiwn hwn.

Roedd gweithdrefnau cydsynio yn cael eu hesbonio ar lafar a'u dogfennu. Fodd bynnag, nid oedd polisi ar gydsyniad cleifion ar waith yn y lleoliad. Roedd y ffurflenni cydsynio yn cynnwys gwybodaeth am risgiau a manteision triniaeth, a dywedwyd wrthym fod y risgiau a'r manteision hyn yn cael eu hesbonio ar lafar i'r cleifion. Fodd bynnag, ni welsom unrhyw wybodaeth ysgrifenedig am risgiau a manteision i'r cleifion. Gwelsom fod angen diweddarau'r datganiad o ddiben a'r

canllaw i gleifion ac nad oeddent ar gael yn hawdd i'r cleifion. Dywedwyd wrthym fod cynlluniau triniaeth yn cael eu trafod â'r cleifion; fodd bynnag, dywedwyd wrthym nad oedd cynlluniau triniaeth ysgrifenedig â chostau yn cael eu rhoi i'r cleifion.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhoi polisiâu ar gydsyniad cleifion, hebryngwyr a chydaddoldeb ac amrywiaeth ar waith
- Darparu gwybodaeth ysgrifenedig i gleifion
- Cyflwyno ffurflenni adborth papur.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Cafwyd adborth cadarnhaol gan bawb a ymatebodd i'r holiadur
- Roedd y staff yn gyfeillgar ac yn barchus
- Roedd cydsyniad yn cael ei geisio a'i ddogfennu ar gyfer pob triniaeth.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Nodwyd bod y lleoliad yn lân ac yn fodern a bod mesurau diogelwch priodol ar waith. Roedd y ddogfennaeth yn ymwneud â'r adeilad, gan gynnwys tystysgrifau nwy a thrydan, yn gyfredol. Roedd trefniadau diogelwch tân ar waith yn rhannol, ond roedd nifer o feysydd yr oedd angen eu gwella. Roedd yr ystafell laser yn lân ond yn anniben gydag eitemau addurniadol ac adlewyrchol, a oedd yn peri risgiau i ddiogelwch y cleifion a'r staff. Roedd eitemau meddal yn y lleoliad a oedd yn ei gwneud hi'n anodd ei lanhau'n effeithiol. Nid oedd yr amserlen lanhau a oedd ar waith yn ddigon manwl a chyson.

Roedd polisiâu rheoli heintiau ar waith ac roedd y trefniadau rheoli gwastraff yn cael eu rheoli'n briodol. Dywedodd y cleifion a ymatebodd i'r holiadur fod y lleoliad yn lân a bod prosesau rheoli heintiau yn cael eu dilyn. Roedd polisiâu diogelu ar gael, ac roedd y staff yn ymwybodol o'r gweithdrefnau. Roedd y cyfarpar laser wedi'i wasanaethu'n briodol ac wedi ei osod yn sOWNd, ond nid oedd y protocolau meddygol wedi'u llofnodi a'u dyddio. Nid oedd y rheolau lleol ar gael yn hawdd ac nid oeddent yn cynnwys manylion y gweithredwr.

Nid oedd y sbectolau diogelwch laser yn ddigonol am eu bod wedi torri neu'n addas ac nid oedd unrhyw gofnodlyfr archwilio ar waith ar eu cyfer. Roedd y staff wedi cael hyfforddiant ar y peiriant laser; fodd bynnag, nid oedd unrhyw weithgareddau gwella ansawdd yn cael eu cynnal. Roedd cofnodion y cleifion yn cael eu storio'n ddiogel. Fodd bynnag, nid oeddent yn cynnwys unrhyw fanylion ac nid oedd unrhyw gofrestr triniaethau yn cael ei defnyddio.

Materion lle mae angen sicrwydd ar unwaith:

- Cynnal asesiad risg iechyd a diogelwch
- Rhoi rhagofalon tân ar waith
- Darparu pecyn cymorth cyntaf
- Sicrhau bod o leiaf un aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant cymorth cyntaf
- Diweddarau'r protocolau meddygol
- Darparu sbectolau amddiffynnol addas ar gyfer cleifion a gweithredwyr
- Rhoi cofrestr cleifion ar waith a sicrhau bod nodiadau'n gyflawn ac yn gywir.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Gwellu'r amserlen lanhau
- Rhoi gweithgareddau gwella ansawdd ar waith
- Diweddarau'r rheolau lleol i gynnwys manylion y gweithredwr.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd tystysgrifau cyfredol ar gael ar gyfer yr adeilad
- Roedd cofnodion yn cael eu storio'n ddiogel
- Roedd hyfforddiant ar waith ar gyfer y cyfarpar laser.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Mae Salon Harddwch Classy Claws yn cael ei weithredu gan y rheolwr cofrestredig yn unig, sydd hefyd yn cynnal yr holl driniaethau laser. Gwnaethom gadarnhau bod yswiriant atebolrwydd cyflogwr ac atebolrwydd cyhoeddus ar waith, ond nid oeddent yn cael eu harddangos ar gyfer y cleifion. Nid oedd tystysgrifau cofrestru ac amodau cofrestru AGIC ar gael nac yn cael yn cael eu harddangos. Gwelsom fod rhai polisïau ar gael, ond bod angen gwneud gwelliannau. Gwelsom nad oedd polisïau ar gydsyniad cleifion, cydraddoldeb ac amrywiaeth, na chadw eiddo cleifion yn ddiogel ar gael.

Roedd polisi cwynion ar waith; fodd bynnag, nid oedd adborth llafar yn cael ei ddogfennu. Fel yr unig aelod o staff, nid oedd angen polisi recriwtio. Fodd bynnag, gwiriad sylfaenol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd oedd yr un a ddarparwyd, ac roedd angen gwiriad manylach.

Roedd y cofnodion hyfforddiant yn dangos bod hyfforddiant craidd gwybodaeth laser a hyfforddiant ar atal a rheoli heintiau wedi'u cwblhau. Fodd bynnag, ni welsom unrhyw hyfforddiant ar nifer o feysydd gorfodol, gan gynnwys diogelu, diogelwch tân, a diogelu data. Ni welsom unrhyw system ar waith i fonitro hyfforddiant.

Materion lle mae angen sicrwydd ar unwaith:

- Mae angen cwblhau hyfforddiant gorfodol.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Sicrhau bod polisiau ar waith
- Cyflwyno cofnodlyfr cwynion
- Monitro anghenion hyfforddiant.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd Polisi cwynion addas ar waith
- Roedd yr hyfforddiant craidd gwybodaeth yn gyfredol
- Roedd polisiau yswiriant ar waith.

Mae manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau a'r camau unioni sydd eu hangen ar unwaith wedi'u nodi yn [Atodiad B](#).

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan gleifion

Cyn ein harolygiad, gwahoddwyd y lleoliad i ddosbarthu holiaduron AGIC i'r cleifion er mwyn cael eu barn ar y gwasanaethau a ddarperir yn y clinig. Cawsom gyfanswm o 14 o holiaduron wedi'u cwblhau. Nid atebodd rhai o'r cleifion bob cwestiwn, a nododd y rhan fwyaf ohonynt eu bod wedi ymweld â'r clinig yn ystod y ddeufis diwethaf. Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC fod y gwasanaeth a ddarperir yn 'dda iawn'.

Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

"Staff ystyriol a gofalgar..."

"Proffesiynol, glân, gwybodus"

"Bob amser wedi cael gwasanaeth gwych..."

"...yn sensitif i fy anghenion, yn gefnogol iawn ac yn rhoi tawelwch meddwl i mi."

Diogelu a gwella iechyd

Dywedwyd wrthym fod y lleoliad yn hyrwyddo ffyrdd iach o fyw mewn sgysiau yn ystod y broses ymgynghori gyda chleifion. Dywedwyd wrthym fod pynciau fel gofal croen a chysylltiad â'r haul yn cael eu trafod. Roedd taflenni ar fusnesau lleol a thriniaethau eraill a ddarperir gan y lleoliad ar gael wrth ymyl ardal y dderbynfa. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw wybodaeth hybu iechyd ar gael.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod taflenni gwybodaeth sy'n hyrwyddo ffyrdd iach o fyw ar gael i'r cleifion.

Urddas a pharch

Gwelsom fod y cleifion a oedd yn mynychu Salon Harddwch Classy Claws yn cael eu trin â charedigrwydd a pharch. Ar ddiwrnod yr arolygiad, roeddem o'r farn bod y staff yn gyfeillgar ac yn groesawgar.

Gwelsom un ystafell laser wedi'i lleoli ar y llawr cyntaf. Roedd yr ardaloedd i'r cleifion yn ymddangos yn lân ac yn drefnus. Dywedwyd wrthym fod ymgynghoriadau yn cael eu cwblhau yn yr ystafell drin a bod y drysau bob amser yn cael eu cadw ar

gau wrth gynnal triniaethau er mwyn rhoi preifatrwydd i'r cleifion. Roedd cloch drws yn y dderbynfa ynghyd â seinydd yn yr ystafell laser er mwyn rhoi gwybod i weithredwr y peiriant laser am unrhyw gleifion a oedd yn aros neu pe bai angen i aelod o'r staff dynnu sylw'r gweithredwr yn ystod triniaeth.

Dywedwyd wrthym fod y staff yn trafod yr opsiwn o gael hebryngwr gyda'r cleifion ar lafar. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw arwyddion yn yr ystafell drin i roi gwybod i'r cleifion am yr opsiwn hwn. Dywedwyd wrthym fod sbectol ychwanegol ar gael ar gyfer hebryngwr pe bai angen. Gwnaethom ofyn am gael gweld copi o'r polisi hebryngwyr; fodd bynnag, dywedwyd wrthym nad oedd polisi o'r fath ar waith yn y lleoliad.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi polisi hebryngwyr addas ar waith.

Gwybodaeth i gleifion a chydysyniad cleifion

Dywedwyd wrthym fod triniaethau yn cael eu hesbonio'n llawn i'r cleifion yn ystod yr ymgynghoriad a bod y cleifion yn rhoi cydsyniad ym mhob apwyntiad cyn cael triniaeth. Dywedodd pob un o'r ymatebwyr a gwblhaodd holiadur AGIC eu bod wedi cael digon o wybodaeth i ddeall yr holl opsiynau triniaeth, a'r risgiau a'r manteision. Fodd bynnag, pan wnaethom ofyn am gael gweld copi o bolisi cyfredol ar gael cydsyniad gan gleifion, dywedwyd wrthym nad oedd polisi ar gael.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi polisi ar gael cydsyniad gan gleifion ar waith.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion pum claf. Gwelsom fod ffurflen gydsynio ar gael ar gyfer pob un o'r pum claf, a oedd yn cael ei chadw yn ffeil y claf.

Dywedwyd wrthym fod hanesion meddygol yn cael eu gwirio a'u diweddarau yn ystod pob ymweliad. Roedd risgiau a manteision triniaeth yn cael eu trafod â'r cleifion yn ystod yr ymgynghoriad ac roedd gwybodaeth bellach ar gael ar y ffurflen gydsynio.

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym nad oedd gwybodaeth i gleifion ar gael mewn fformatau amgen yn y lleoliad. Fodd bynnag, byddai gwybodaeth yn cael ei darparu ar ffurf papur pe bai angen. Dywedwyd wrthym nad oes gan y lleoliad wefan a bod unrhyw wybodaeth y cael ei rhannu ar y cyfryngau cymdeithasol.

Cyfathrebu'n effeithiol

Ar ddiwrnod yr arolygiad, gwnaethom ofyn am gael gweld copi o'r Datganiad o Ddiben. Cawsom gopi o hwn a dywedwyd wrthym ei fod ar gael wrth ddesg y dderbynfa ar gais. Roedd y ddogfen yn cynnwys gwybodaeth am y gwasanaethau a ddarperir, preifatrwydd ac urddas, y weithdrefn gwyno, gwybodaeth am y rheolwr cofrestredig a'r ffyrdd y mae'r lleoliad yn ceisio barn y cleifion.

Gwelsom dystiolaeth o ganllaw i gleifion; fodd bynnag, dywedwyd wrthym nad oedd hwn yn cael ei roi i'r cleifion ac nad oedd ar gael yn hawdd.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y canllaw i gleifion ar gael yn hawdd i'r cleifion pan fyddant yn dod am driniaeth.

Gwelsom, fod y canllaw i gleifion yn cynnwys crynodeb o'r Datganiad o Ddiben, gwybodaeth am driniaethau, y weithdrefn gwyno, a gwybodaeth gyswllt ar gyfer y lleoliad. Fodd bynnag, nid oedd yn cynnwys crynodeb o safbwyntiau'r cleifion, gwybodaeth am risgiau a manteision, rhestr brisiau, na gwybodaeth am ble i ddod o hyd i'r adroddiad arolygu diweddaraf.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig ddiweddarau'r canllaw i gleifion er mwyn cynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol.

Dywedwyd wrthym fod yr aelod o staff yn y practis yn gallu siarad Cymraeg sylfaenol. Rhoddwyd sicrwydd i ni pe bai cleifion am siarad Cymraeg neu pe bai angen iddynt ddefnyddio unrhyw iaith arall, y byddai cyfieithydd yn cael ei drefnu.

Dywedwyd wrthym y gallai cleifion nad oedd ganddynt fynediad digidol ffonio neu ddod i'r clinig i drefnu apwyntiadau, ac y byddai gwybodaeth yn cael ei darparu iddynt ar ffurf papur.

Cynllunio a darparu gofal

Dywedwyd wrthym fod cleifion yn cael ymgynghoriad llawn wyneb yn wyneb a phrawf croen cyn cael unrhyw driniaeth. Yn ystod yr ymgynghoriad, byddai nifer y sesiynau y byddai eu hangen, y canlyniadau disgwylidig, a'r risgiau a'r manteision yn cael eu trafod ar lafar. Gwelsom dystiolaeth o brofion croen a gynhaliwyd a gwybodaeth am hanes meddygol y cleifion. Dywedodd pawb a ymatebodd i'r holiadur eu bod wedi cael prawf croen cyn cael triniaeth newydd., Gwelsom dystiolaeth bod y cleifion yn rhoi cydsyniad cyn cael pob triniaeth a dywedodd pob un o'r cleifion a ymatebodd i'r holiadur eu bod wedi llofnodi ffurflen gydsynio cyn cael triniaeth.

Dywedwyd wrthym fod gwybodaeth y cael ei rhannu â'r cleifion ar lafar ac nad ydynt yn cael cynllun triniaeth ysgrifenedig. Rhoddir gwybod i'r cleifion am gostau triniaethau ar lafar ac mae gwybodaeth am gostau triniaethau ar gael drwy'r system trefnu apwyntiadau.

Gwelsom dystiolaeth o daflen wybodaeth am ôl-ofal a dywedwyd wrthym fod y daflen hon yn cael ei rhoi i'r cleifion ar ôl iddynt gael triniaeth. Dywedwyd wrthym fod gwybodaeth am ôl-ofal yn cael ei rhoi ar lafar. Dywedodd pawb a ymatebodd i'r

holiadur eu bod wedi cael digon o wybodaeth i ddeall eu hopsiynau triniaeth, a'r risgiau a'r manteision.

Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol

Gwnaethom ofyn am gael gweld copi o bolisi cydraddoldeb ac amrywiaeth y lleoliad; fodd bynnag, dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym nad oedd polisi ar gael.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi polisi cydraddoldeb ac amrywiaeth ar waith.

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym na fyddai'r lleoliad yn goddef unrhyw faterion yn ymwneud â chydraddoldeb ac amrywiaeth. Dywedwyd wrthym fod hawliau cleifion trawsryweddol yn cael eu cynnal, a bod rhagenwau a ffefrir yn cael eu defnyddio a'u newid yng nghofnodion y cleifion.

Dywedodd pawb a ymatebodd i holiadur AGIC nad oeddent wedi wynebu unrhyw wahaniaethu wrth gysylltu â'r gwasanaeth neu ei ddefnyddio.

Ymgysylltu â dinasyddion a'u hadborth

Dywedwyd wrthym fod cleifion yn rhoi adborth drwy anfon neges destun at y rheolwr cofrestredig ac y gallai cleifion adael adolygiadau Google ar-lein a gadael adolygiadau drwy system trefnu apwyntiadau ar-lein Vagaro. Dywedwyd wrthym nad oedd unrhyw ffurflenni adborth papur ar gael. Dywedwyd wrthym fod y rheolwr cofrestredig yn monitro adborth yn rheolaidd ac yn gweithredu arno pan fo angen. Nid oedd crynodeb o adborth gan gleifion yn y canllaw i gleifion, fel y nodwyd yn flaenorol yn yr adroddiad.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi system adborth bapur ar waith er mwyn galluogi'r rhai heb fynediad digidol i roi adborth.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Yr Amgylchedd

Gwelsom fod y lleoliad yn lân ac wedi'i addurno i safon dda. Roedd pob ardal yn olau ac yn edrych yn fodern. Gwelsom fod system larwm diogelwch addas ar waith a bod camerâu diogelwch wedi'u gosod y tu allan i'r adeilad.

Rheoli risg ac iechyd a diogelwch

Gwelsom dystiolaeth bod gan y lleoliad dystysgrif diogelwch nwy gyfredol, tystysgrif prawf offer cludadwy a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, a thystysgrif gosodiadau trydanol a gwblhawyd yn ystod y pum mlynedd diwethaf.

Gwnaethom edrych ar y trefniadau diogelwch tân yn y lleoliad a gwelsom fod asesiad risg tân addas ar waith. Gwelsom dystiolaeth bod y cyfarpar diffodd tân wedi cael ei wasanaethu yn ystod y 12 mis diwethaf. Fodd bynnag, gwnaethom nodi'r meysydd canlynol i'w gwella:

- Nid oedd unrhyw gofnodion ar waith o wiriadau wythnosol o'r larymau tân
- Nid oedd unrhyw gofnodion o ymarferion tân yn y lleoliad
- Ni welsom unrhyw arwyddion 'dim smygu' yn y lleoliad
- Nid oedd unrhyw arwyddion allanfa dân ar y llawr cyntaf
- Nid oedd unrhyw wybodaeth ar gael am yr hyn y dylai cleifion ei wneud pe bai tân

Ymdriniwyd â'n pryderon yn hyn o beth o dan ein proses hysbysiadau diffyg cydymffurfio. Fel rhan o'r broses hon, gwnaethom ysgrifennu at y gwasanaeth ar unwaith yn dilyn yr arolygiad yn ei gwneud yn ofynnol iddo gymryd camau unioni ar fyrder. Ceir rhagor o wybodaeth am y materion a nodwyd gennym, a'r camau a gymerwyd gan y gwasanaeth, yn [Atodiad B](#).

Gwnaethom edrych ar yr asesiad risg laser a gwelsom ei fod yn addas. Fodd bynnag, ni welsom asesiad risg iechyd a diogelwch ar waith. Ceir rhagor o wybodaeth am y materion a nodwyd gennym, a'r camau a gymerwyd gan y gwasanaeth, yn [Atodiad B](#).

Gwnaethom ofyn am gael gweld tystysgrif ar gyfer y staff cymorth cyntaf; fodd bynnag, dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym nad oedd unrhyw staff a oedd wedi cwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf yn y lleoliad. Gwelsom fod rhai eitemau ar goll o'r pecyn cymorth cyntaf ac mai'r dyddiad defnyddio ar yr holl eitemau yn y pecyn oedd 2016. Ceir rhagor o wybodaeth am y materion a nodwyd gennym, a'r camau a gymerwyd gan y gwasanaeth, yn [Atodiad B](#).

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Er bod yr ystafell laser yn lan, roedd yn anniben. Gwelsom fod llawer o eitemau addurniadol yn yr ystafell, ac roeddem o'r farn bod y rhain yn ddiangen. Gwelsom hefyd fod eitemau adlewyrchol yn yr ystafell a allai beri risg i'r cleifion a'r staff wrth ddefnyddio'r peiriant laser. Dywedwyd wrthym nad oedd y Cynghorydd Diogelu rhag Laserau wedi ymweld â'r lleoliad yn bersonol a'i fod wedi cynnal ei ymweliad dros fideo lle nad oedd yr arwynebau adlewyrchol hyn wedi cael eu nodi.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig gael gwared ar unrhyw eitemau diangen ac eitemau a wnaed o ddeunydd adlewyrchol o'r ystafell laser er mwyn atal a rheoli heintiau yn effeithiol a sicrhau diogelwch cleifion.

Roedd y cyfarpar a'r dodrefn wedi'u gwneud o ddeunydd y gellid ei sychu'n hawdd ac roedd lefelau priodol o gyfarpar diogelu personol ar gael. Fodd bynnag, gwelsom eitemau dodrefnu meddal fel clustogau ar gadeiriau yn yr ystafell laser na ellid eu glanhau'n effeithiol.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig gael gwared ar eitemau dodrefnu meddal fel clustogau o'r ystafell laser.

Rhoddwyd copi o'r amserlen lanhau i ni a oedd yn cynnwys dyddiadau a llofnodion. Fodd bynnag, nid oedd y ddogfen yn nodi'r hyn a oedd wedi'i lanhau yn y lleoliad ac roedd bylchau rhwng dyddiadau, gan gynnwys rhai enghreifftiau o ddyddiadau bythefnos ar wahân.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig ddiweddarau'r amserlen lanhau i nodi'r hyn sydd wedi'i lanhau a sicrhau bod y lleoliad yn cael ei lanhau'n rheolaidd.

Gwelsom fod polisi atal a rheoli heintiau addas ar waith a adolygwyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Gwelsom fod polisi a chontract ar waith ar gyfer casglu a gwaredu gwastraff yn ddiogel.

Dywedodd pawb a ymatebodd i holiadur AGIC eu bod yn teimlo bod mesurau atal a rheoli heintiau yn cael eu dilyn a bod y lleoliad yn 'lân iawn'.

Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed

Mae'r lleoliad wedi'i gofrestru i drin cleifion 18 oed a throsodd a chadarnhaodd y rheolwr cofrestredig ei fod yn cydymffurfio â hyn. Dywedwyd wrthym y gellid dod â phlant ar y safle, ond na allent fynd i mewn i'r ystafell laser.

Gwelsom dystiolaeth o bolisi diogelu oedolion agored i niwed a pholisi chwythu'r chwiban, a adolygwyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Gwelsom fod gan y rheolwr cofrestredig ap Gweithdrefnau Diogelu Cymru ar ei ffôn er mwyn sicrhau bod y polisiâu a'r gweithdrefnau yn cael eu cadw'n gyfredol. Dywedwyd wrthym y byddai'r

rheolwr cofrestredig yn cysylltu â'r tîm diogelu lleol pe bai unrhyw faterion diogelu yn cael eu nodi.

Dyfeisiau, cyfarpar a systemau diagnostig meddygol

Gwelsom fod y peiriant laser yn y lleoliad yr un fath â'r un a oedd wedi'i gofrestru ag AGIC ac roedd tystiolaeth ei fod wedi cael ei galibradu a'i wasanaethu. Gwelsom dystiolaeth bod contract cyfredol ar waith gyda chynghorydd diogelu rhag laserau. Roedd yr adroddiad diwethaf a welwyd wedi'i lunio ar 07 Awst 2025, ac roedd yn cynnwys y rheolau lleol ac asesiadau risg. Cawsom gopi o'r protocolau meddygol; fodd bynnag, ni chawsom sicrwydd eu bod yn addas ac nid oeddent yn cynnwys dyddiad cyhoeddi nac wedi'u llofnodi gan ymarferydd meddygol. Ceir rhagor o wybodaeth am y materion a nodwyd gennym, a'r camau a gymerwyd gan y gwasanaeth, yn [Atodiad B](#).

Gwelsom nad oedd y rheolau lleol a oedd ar gael yn cynnwys manylion y gweithredwyr ac nad oeddent ar gael yn hawdd yn y clinig.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y rheolau lleol yn cynnwys manylion y gweithredwyr.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y rheolau lleol ar gael gyda'r peiriant laser yn y clinig.

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Roedd yr allwedd ar gyfer y peiriant laser yn cael ei dynnu pan nad oedd yn cael ei ddefnyddio a'i storio'n ddiogel yn rhywle arall i ffwrdd oddi wrth y peiriant. Roedd arwydd ar y drws i roi gwybod i eraill fod peiriant laser yn cael ei ddefnyddio yn yr ystafell; fodd bynnag, nid oedd arwydd ar gael i roi gwybod i eraill pan oedd yn cael ei ddefnyddio.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig brynu arwydd i'w roi ar y drws pan fydd triniaeth yn cael ei chynnal.

Gwnaethom ofyn am gael gweld y sbectolau amddiffynnol a ddefnyddir gan weithredwyr a chleifion pan fydd triniaeth laser yn cael ei chynnal. Dangoswyd tair sbectol i ni i'w defnyddio gan y gweithredwr a gorchuddion llygaid blacowt a ddefnyddir gyda chlytiau llygaid cotwm ar gyfer y claf. Roedd y sbectol gyntaf wedi torri ac yn cael ei dal at ei gilydd gyda thâp. Nid oedd hon yn addas i'w defnyddio. Nid oedd yr ail sbectol yn gorchuddio'r llygaid yn ddigonol, a dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod y drydedd sbectol wedi cael ei phrynu ar-lein a bod hysbysiad adalw wedi'i chyhoeddi yn ei chylch am nad oedd yn amddiffyn y llygaid yn ddigonol rhag laser. Ceir rhagor o wybodaeth am y materion a nodwyd gennym, a'r camau a gymerwyd gan y gwasanaeth, yn [Atodiad B](#).

Dywedwyd wrthym fod y sbectolau amddiffynnol yn cael eu gwirio cyn eu defnyddio, ond nid oedd unrhyw gofnod o hyn.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi cofnodlyfr ar waith ar gyfer gwirio'r sbectolau amddiffynnol cyn pob triniaeth.

Dywedwyd wrthym fod gwiriadau sicrhau ansawdd dyddiol yn cael eu cynnal ar y peiriant laser, er enghraifft, i wirio'r lens cyn ei ddefnyddio. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw dystiolaeth wedi'i dogfennu o'r gwiriadau hyn.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi cofnodlyfr sicrhau ansawdd dyddiol ar waith ar gyfer y peiriant laser.

Roedd pob aelod o staff a oedd yn defnyddio'r peiriant laser wedi cwblhau hyfforddiant ar gyfer y peiriant penodol ac roedd cwrs gloywi wedi'i drefnu yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Gwelsom dystiolaeth yng nghofnodion y cleifion fod gwiriadau cyn triniaeth yn cael eu cynnal, fel prawf croen 48 awr cyn y driniaeth.

Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd

Gwnaethom ofyn am gael gweld tystiolaeth o weithgareddau gwella ansawdd a gynhaliwyd gan y clinig. Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym nad oes unrhyw weithgareddau sicrhau ansawdd yn cael eu cynnal yn y lleoliad. Gwnaethom argymhell y dylai'r rheolwr cofrestredig gynnal gweithgareddau gwella ansawdd gan y byddai hyn yn helpu'r clinig i gydymffurfio â'r rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol iddo asesu a monitro'r gwasanaeth er mwyn sicrhau ei fod yn cyrraedd y safonau angenrheidiol.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi gweithdrefn ar waith i sicrhau bod prosesau gwerthuso a gwella parhaus ar waith lle bo angen, fel y nodir yn y rheoliadau.

Rheoli cofnodion

Gwelsom fod cofnodion y cleifion yn cael eu cadw ar bapur a bod manylion apwyntiadau'n cael eu cadw'n ddigidol. Roedd yr holl gofnodion papur a welsom yn cael eu cadw'n ddiogel mewn cabinet y gellid ei gloi ac roedd manylion apwyntiadau digidol yn cael eu cadw mewn system ddiogel. Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym na fu'n rhaid gwaredu cofnodion cleifion eto; fodd bynnag, roedd yn gallu disgrifio'r broses briodol ar gyfer gwaredu cofnodion, gan gynnwys cyfnodau cadw data.

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion pum claf a gwelsom fod angen gwelliannau ym mhob maes. Lle roedd gwybodaeth wedi'i chofnodi, roedd yn ddarllenadwy. Fodd bynnag, nid oedd y cofnodion yn cynnwys gwybodaeth orfodol

fel y rhannau o'r corff a gafodd eu trin, paramedrau perthnasol, nifer y dosau, ac effeithiau andwyol.

Ni chawsom gopi o gofrestr triniaethau gan y rheolwr cofrestredig a dywedwyd wrthym nad oedd cofrestr o'r fath yn cael ei defnyddio ar gyfer y peiriant laser.

Ceir rhagor o wybodaeth am y materion a nodwyd gennym, a'r camau a gymerwyd gan y gwasanaeth, yn [Atodiad B](#).

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Roedd Clinig Harddwch Classy Claws yn cael ei redeg gan y rheolwr cofrestredig, a oedd hefyd yn berchen arno, ac nid oedd unrhyw aelodau eraill o staff. Y rheolwr cofrestredig oedd unig weithredwr y peiriant laser.

Yn ystod yr arolygiad, gwelsom dystiolaeth o yswiriant atebolrwydd cyflogwr ac yswiriant atebolrwydd cyhoeddus y lleoliad. Nid oedd unrhyw dystysgrifau cofrestru gan AGIC na rhestr o amodau cofrestru AGIC wedi'u harddangos. Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym nad oedd y rhain ar gael.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig gael copïau o'r rhestr o amodau cofrestru a'r dystysgrif gofrestru gan AGIC a'u harddangos i'r cleifion eu gweld.

Gwelsom bolisiau a gweithdrefnau addas yn y ffolder rheoli. Fodd bynnag, fel y nodwyd eisoes yn r adroddiad, roedd rhai polisiau ar goll. Bydd angen i'r lleoliad roi polisiau ar waith ar gyfer y canlynol:

- Cael cydsyniad gan gleifion
- Darparu gwybodaeth i gleifion
- Cydraddoldeb ac amrywiaeth
- Rheoli gwaith cynnal a chadw
- Diogelu eiddo cleifion yn ystod triniaeth

O ganlyniad i nifer o faterion a nodwyd, gwnaethom argymhell y dylai'r rheolwr cofrestredig gynnal adolygiad o'r polisiau a'r gweithdrefnau oherwydd y nifer a oedd ar goll.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig adolygu'r polisiau a'r gweithdrefnau a rhoi'r rhai priodol ar waith.

Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau

Gwelsom fod polisi cwynion addas ar waith. Roedd y rhain yn cynnwys manylion yr unigolyn cyfrifol ac amserlenni ar gyfer cydnabod cwynion. Roedd manylion cyswllt AGIC hefyd ar gael pe bai claf o'r farn nad oedd y mater wedi'i ddatrys. Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym nad oedd unrhyw gwynion ffurfiol wedi dod i law. Dywedwyd wrthym nad oedd cwynion neu ganmoliaeth llafar yn cael eu cofnodi.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi proses ar waith i gofnodi cwynion llafar ac ysgrifenedig.

Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu

Gan mai'r rheolwr cofrestredig yw perchennog ac unig aelod o staff y lleoliad laser, nid oedd unrhyw bolisi recriwtio ar waith. Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym nad oedd ganddo unrhyw fwriad i gyflogi staff yn y dyfodol. Gwelsom dystiolaeth bod gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi'i gwblhau ar gyfer y rheolwr cofrestredig. Fodd bynnag, gwiriad sylfaenol oedd hwn ac roedd angen gwiriad manylach.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig gael gwiriad manylach gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a rhoi copi ohono i AGIC.

Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol

Ar ddiwrnod yr arolygiad, gwnaethom ofyn am gael gweld cofnodion hyfforddiant y staff. Gwelsom hyfforddiant cyfredol ar atal a rheoli heintiau, craidd gwybodaeth, a hyfforddiant penodol ar gyfer y cyfarpar laser. Fodd bynnag, ni welsom gofnod o'r hyfforddiant canlynol:

- Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol
- Iechyd a diogelwch yn y gwaith
- Diogelu data/llywodraethu gwybodaeth
- Hyfforddiant ar ddiogelwch tân
- Hyfforddiant cymorth cyntaf
- Diogelu oedolion

Oherwydd y ffaith bod llawer o hyfforddiant heb ei gwblhau a'r risg i ddiogelwch cleifion, ymdriniwyd â'n pryderon mewn perthynas â hyn o dan ein proses hysbysiadau diffyg cydymffurfio. Ceir rhagor o wybodaeth am y materion a nodwyd gennym, a'r camau a gymerwyd gan y gwasanaeth, yn [Atodiad B](#).

Ni welsom system ar waith i fonitro hyfforddiant yn effeithiol; gwnaethom gynghori'r rheolwr cofrestredig y dylai roi matrices hyfforddiant ar waith i sicrhau cydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol yn y dyfodol .

Dylai'r rheolwr cofrestredig roi matrices hyfforddiant ar waith i sicrhau cydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgysfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni ddatryswyd unrhyw bryderon yn ystod yr arolygiad.			

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Salon Harddwch Classy Claws

Dyddiad yr arolygiad: 11 Awst 2025

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Risg/canfyddiad/mater		Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1.	Ni welsom asesiad risg iechyd a diogelwch ar waith.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod asesiad risg iechyd a diogelwch yn cael ei gynnal gan unigolyn cymwys.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 Rheoliad 19(1)(b)	Bydd hwn yn cael ei gwblhau ddydd Mercher nesaf.	Sarah Vant Wout	Wedi'i gwblhau
2.	Gwnaethom nodi'r meysydd canlynol i'w gwella: - Nid oedd unrhyw gofnodion ar waith o wiriadau wythnosol o'r larymau tân - Nid oedd unrhyw gofnodion o ymarferion tân yn y lleoliad	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y rhoddir y rhagofalon tân canlynol ar waith: - Cynnal ymarferion tân bob chwe mis - Cynnal gwiriadau wythnosol o'r larwm tân	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 Rheoliad 26 (4)	Mae hyn eisoes ar waith, ac rwyf wedi cyflwyno'r ffurflen rwy'n ei defnyddio i Objective. Mae'r cyfan ar y waliau ac mae llun wedi'i gyflwyno i Objective.	Sarah Vant Wout	Wedi'i gwblhau

	- Ni welsom unrhyw arwyddion ‘dim smygu’ yn y lleoliad - Nid oedd unrhyw arwyddion allanfa dân ar y llawr cyntaf - Nid oedd unrhyw wybodaeth ar gael am yr hyn y dylai cleifion ei wneud pe bai tân	- Gosod arwyddion allanfa dân ar y llawr cyntaf - Darparu gwybodaeth am fannau ymgynnull - Arddangos arwyddion ‘dim smygu’				
3.	Ni chawsom gopi gofrestr triniaethau gan y rheolwr cofrestredig a dywedwyd wrthym nad oedd cofrestr o'r fath yn cael ei defnyddio ar gyfer y peiriant laser.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi cofrestr cleifion ar waith a sicrhau bod cofnodion cleifion cyflawn a chywir yn cael eu cadw bob amser.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru Rheoliad 23 (1)(a) a 45 (2))	Rwyf wedi llunio cofrestr cleifion ac wedi ei gyflwyno i Objective.	Sarah Vant Wout	Wedi'i gwblhau
4.	Ni welsom gofnod o'r hyfforddiant canlynol: - Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol - Iechyd a diogelwch yn y gwaith	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y staff yn cwblhau hyfforddiant yn y meysydd canlynol: - Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Hawliau Dynol - Iechyd a diogelwch yn y gwaith	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru Rheoliad 20(2)(a))	Wedi'i gwblhau - Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Hawliau Dynol - Iechyd a diogelwch yn y gwaith - Diogelu data/llywodraethu	Sarah Vant Wout	21/08/2025 - 18/08/2025 -

	• Diogelu data/llywodraethu gwybodaeth • Hyfforddiant diogelwch tân • Hyfforddiant cymorth cyntaf • Diogelu oedolion.	• Diogelu data/llywodraethu gwybodaeth • Diogelu oedolion sy'n wynebu risg • Hyfforddiant ar ddiogelwch tân • Hyfforddiant cymorth cyntaf		gwybodaeth • Diogelu oedolion sy'n wynebu risg lefel 1 lefel 2 • Hyfforddiant ar ddiogelwch tân • Hyfforddiant cymorth cyntaf		- - 29/08/2025 -
5.	Gwelsom fod rhai eitemau ar goll o'r pecyn cymorth cyntaf ac mai'r dyddiad defnyddio ar yr holl eitemau yn y pecyn oedd 2016.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi cyfarpar cymorth cyntaf digonol ar waith.	Rheoliadau Gofal lechyd Annibynnol (Cymru Rheoliad 15 (2))	Mae blwch cymorth cyntaf newydd wedi ei osod yn y gegin, ac mae tystiolaeth ffotograffig wedi'i lanlwytho i Objective.	Sarah Vant Wout	Wedi'i gwblhau
6.	Nid oedd y tair sbectol laser a oedd ar gael i'r gweithredwr a'r claf yn addas i'w defnyddio.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig ddarparu sbectolau priodol i'r gweithredwr a'r claf yn ystod triniaethau laser.	Rheoliadau Gofal lechyd Annibynnol (Cymru) Rheoliad 15 (1)(b)	Mae AllWhite Laser a'm cynghorydd laser wedi argymhell bod sbectol blacowt yn ddigon ar gyfer cleient. Rwyf wedi prynu sbectolau newydd ac wedi lanlwytho tystiolaeth i Objective.	Sarah Vant Wout	Wedi'i gwblhau
7.	Cawsom gopi o'r protocolau meddygol; fodd bynnag, ni chawsom sicrwydd eu bod	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi copi o'r protocolau meddygol proffesiynol	Rheoliadau Gofal lechyd Annibynnol	Mae AllWhite Laser a'm cynghorydd laser wedi dweud bod y protocol yn ddigonol.	Sarah Vant Wout	Wedi'i gwblhau

yn addas ac nid oeddent yn cynnwys dyddiad cyhoeddi nac wedi'u llofnodi gan ymarferydd meddygol.	diweddaraf i AGIC ar gyfer y peiriant laser a ddefnyddir yn y clinig ar hyn o bryd.	(Cymru Rheoliad 45 (1))			
--	---	-------------------------	--	--	--

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau):

Teitl swydd:

Dyddiad:

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Salon Harddwch Classy Claws

Dyddiad yr arolygiad: 11 Awst 2025

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater		Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1.	Nid oedd unrhyw wybodaeth hybu iechyd ar gael.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod taflenni gwybodaeth sy'n hyrwyddo ffyrdd iach o fyw ar gael i'r cleifion.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru Rheoliad 15(1)(a))	Mae taflenni wedi'u casglu o'r ganolfan hamdden leol ac maent yn cael eu harddangos i'r cleifion.	Sarah Vant Wout	Cwblhawyd ar 21 Medi
2.	Gwnaethom ofyn am gael gweld copi o'r polisi hebryngwyr; fodd bynnag, dywedwyd wrthym nad oedd polisi o'r fath ar waith yn y lleoliad.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi polisi hebryngwyr addas ar waith.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru Rheoliad 9 (1))	Mae polisi hebryngwyr wedi'i gwblhau, ei argraffu a'i roi yn ffeil y salon, a gellir ei weld ar gais.	Sarah Vant Wout	Cwblhawyd ar 20 Medi
3.	Pan wnaethom ofyn am gael gweld copi o bolisi cyfredol ar gael	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi polisi ar	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru	Mae polisi ar gydsyniad wedi'i gwblhau a'i argraffu ac	Sarah Vant Wout	Cwblhawyd ar 21 Medi

	cydsyniad gan gleifion, dywedwyd wrthym nad oedd polisi ar gael.	gael cydsyniad gan gleifion ar waith.	Rheoliad 9 (1)	mae'n cael ei gadw yn y salon.		
4.	Gwelsom dystiolaeth o ganllaw i gleifion; fodd bynnag, dywedwyd wrthym nad oedd hwn yn cael ei roi i'r cleifion ac nad oedd ar gael yn hawdd.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y canllaw i gleifion ar gael i'r cleifion pan fyddant yn dod am driniaeth.	Rheoliadau Gofal lechyd Annibynnol (Cymru Rheoliad 7 (2))	Canllaw i gleifion, bydd hwn yn cael ei arddangos i'r cleifion ac yn cael ei gadw yn ffeil y salon.	Sarah Vant Wout	Cwblhawyd ar 21 Medi
5.	Nid oedd y canllaw i gleifion yn cynnwys crynodeb o safbwyntiau'r cleifion, gwybodaeth am risgiau a manteision, rhestr brisiau, na gwybodaeth am ble i ddod o hyd i'r adroddiad arolygu diweddaraf.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig ddiweddarau'r canllaw i gleifion er mwyn cynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol.	Rheoliadau Gofal lechyd Annibynnol (Cymru Rheoliad 7 (1))	Mae'r rhestr brisiau a gwybodaeth am risgiau a manteision gwaredu blew â laser wedi'u hychwanegu at y canllaw i gleifion yn ogystal â gwybodaeth am ble y gall cwsmeriaid weld yr adroddiad arolygu diweddaraf, ac mae'n cael ei gadw yn ffeil y salon.	Sarah Vant Wout	Cwblhawyd ar 20 Medi

6.	Gwnaethom ofyn am gael gweld copi o bolisi cydraddoldeb ac amrywiaeth y lleoliad; fodd bynnag, dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym nad oedd polisi ar gael.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi polisi cydraddoldeb ac amrywiaeth ar waith.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru Rheoliad 9 (1))	Rwyf wedi cwblhau cwrs ar gydraddoldeb ac amrywiaeth ac wedi creu polisi ar gyfer y salon, sy'n cael ei gadw yn ffeil y salon.	Sarah Vant Wout	Cwblhawyd ar 21 Medi
7.	Dywedwyd wrthym nad oedd unrhyw ffurflenni adborth papur ar gael.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi system adborth bapur ar waith er mwyn galluogi'r rhai heb fynediad digidol i roi adborth.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru Rheoliad 19 (2)(e) a 15 (1)(a))	Mae llyfr sylwadau a llyfr cwynion wedi'u rhoi yn y salon i'r cwsmeriaid eu defnyddio a gellir rhoi adborth drwy'r cyfryngau cymdeithasol, Google a Vagaro. Mae ffurflenni digidol a phapur ar gael.	Sarah Vant Wout	Cwblhawyd ar 21 Medi
8.	Gwelsom fod llawer o eitemau addurniadol yn yr ystafell, ac roeddem o'r farn bod y rhain yn ddiangen. Gwelsom hefyd fod eitemau adlewyrchol	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig gael gwared ar unrhyw eitemau diangen ac eitemau a wnaed o ddeunydd adlewyrchol o'r ystafell laser er mwyn atal a	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru Rheoliad 26 (2)(a))	Bydd yr eitemau'n cael eu symud o'r ystafell pan fydd sesiwn laser ar waith. Byddaf yn lleihau nifer yr eitemau yn yr ystafell fel sy'n briodol.	Sarah Vant Wout	Cwblhawyd ar 20 Medi

	yn yr ystafell a allai beri risg i'r cleifion a'r staff wrth ddefnyddio'r peiriant laser.	rheoli heintiau yn effeithiol a sicrhau diogelwch cleifion.				
9.	Gwelsom eitemau dodrefnu meddal fel clustogau ar gadeiriau yn yr ystafell laser na ellid eu glanhau'n effeithiol.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig gael gwared ar eitemau dodrefnu meddal fel clustogau o'r ystafell laser.	Rheoliadau Gofal lechyd Annibynnol (Cymru Rheoliad 26 (2)(a))	Mae'r gadair wedi cael ei symud o'r clinig.	Sarah Vant Wout	Cwblhawyd ar 22 Medi
10.	Nid oedd yr amserlen lanhau yn nodi'r hyn a oedd wedi'i lanhau yn y lleoliad ac roedd bylchau rhwng dyddiadau, gan gynnwys rhai enghreifftiau o ddyddiadau bythefnos ar wahân.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig ddiweddarau'r amserlen lanhau i nodi'r hyn sydd wedi'i lanhau a sicrhau bod y lleoliad yn cael ei lanhau'n rheolaidd.	Rheoliadau Gofal lechyd Annibynnol (Cymru Rheoliad 15 (3))	Mae llyfr glanhau wedi'i roi ar waith, fel bod modd cyflwyno, dilyn a chofnodi amserlen lanhau fanylach. Byddaf i, Sarah, yn glanhau'r ystafell laser fy hun. A bydd glanhäwr proffesiynol yn glanhau'r salon cyfan unwaith yr wythnos.	Sarah Vant Wout	Cwblhawyd ar 23 Medi
11.	Gwelsom nad oedd y rheolau lleol a oedd ar gael yn cynnwys	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y rheolau lleol yn cynnwys manylion y gweithredwyr.	Rheoliadau Gofal lechyd Annibynnol (Cymru Rheoliad 45 (3))	Mae fy enw wedi cael ei ychwanegu at y rheolau lleol.	Sarah Vant Wout	Cwblhawyd ar 22 Medi

	manylion y gweithredwyr.					
12.	Gwelsom nad oedd y rheolau lleol ar gael yn hawdd yn y clinig.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y rheolau lleol ar gael gyda'r peiriant laser yn y clinig.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru Rheoliad 45 (3))	Mae'r rheolau lleol ar gael yn y clinig, ac yn ffeil y salon, a bydd ffeil ar gael i'r cleifion gyfeirio ati'n hawdd hefyd.	Sarah Vant Wout	Cwblhawyd ar 22 Medi
13.	Nid oedd arwydd ar gael i roi gwybod i eraill pan oedd yn cael ei ddefnyddio.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig brynu arwydd i'w roi ar y drws pan fydd triniaeth yn cael ei chynnal.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru Rheoliad 45 (3))	Dau arwydd ar ddrws y clinig - arwydd rhybudd sy'n dangos bod peiriant laser yn y clinig ac arwydd y gellir ei dynnu sy'n dangos bod triniaeth laser yn mynd rhagddi.	Sarah Vant Wout	Cwblhawyd ar 22 Medi
14.	Dywedwyd wrthym fod y sbectolau amddiffynnol yn cael eu gwirio cyn eu defnyddio, ond nid oedd unrhyw gofnod o hyn.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi cofnodlyfr ar waith ar gyfer gwirio'r sbectolau amddiffynnol cyn pob triniaeth.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru Rheoliad 45 (3))	Bydd y sbectolau amddiffynnol yn cael eu gwirio a'u cofnodi mewn llyfr a gedwir yn y clinig, a bydd y sbectolau'n cael eu gwirio ar ddiwedd y dydd os byddant wedi cael eu defnyddio.	Sarah Vant Wout	Cwblhawyd ar 24 Medi

15.	Dywedwyd wrthym fod gwiriadau sicrhau ansawdd dyddiol yn cael eu cynnal ar y peiriant laser, er enghraifft, i wirio'r lens cyn ei ddefnyddio. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw dystiolaeth wedi'i dogfennu o'r gwiriadau hyn.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi cofnodlyfr sicrhau ansawdd dyddiol ar waith ar gyfer y peiriant laser.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru Rheoliad 45 (3)	Rwy'n glanhau'r peiriant laser fy hun ar ôl pob sesiwn laser ac ar ddiwedd pob dydd, gan gynnwys y lensys, ac yn cynnal gwiriad ansawdd, a chaiff hyn ei gofnodi mewn llyfr.	Sarah Vant Wout	Cwblhawyd ar 28 Medi
16.	Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym nad oes unrhyw weithgareddau sicrhau ansawdd yn cael eu cynnal yn y lleoliad.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi gweithdrefn ar waith i sicrhau bod prosesau gwerthuso a gwella parhaus ar waith lle bo angen, fel y nodir yn y rheoliadau.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru Rheoliad 19 (1)	Mae cynllun archwilio ar waith ac mae copi ohono yn ffeil y salon er mwyn i'r cleifion allu gweld unrhyw weithgareddau gwella.	Sarah Vant Wout	Cwblhawyd ar 28 Medi
17.	Nid oedd unrhyw dystysgrifau cofrestru gan AGIC na rhestr o amodau cofrestru AGIC wedi'u harddangos.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig gael copïau o'r rhestr o amodau cofrestru a'r dystysgrif gofrestru gan AGIC a'u harddangos.	Deddf Safonau Gofal 2000 Adran 28	Nid oes unrhyw dystysgrif wedi'i harddangos am fy mod yn aros amdani. Byddaf yn ei harddangos yn y salon unwaith y byddaf wedi ei chael.	Sarah Vant Wout	3 wythnos

18.	Bydd angen i'r lleoliad roi polisiâu ar waith ar gyfer y canlynol: • Cael cydsyniad gan gleifion • Darparu gwybodaeth i gleifion • Cydraddoldeb ac amrywiaeth • Rheoli gwaith cynnal a chadw • Diogelu eiddo cleifion yn ystod triniaeth.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi'r polisiâu a'r gweithdrefnau priodol ar waith.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru Rheoliad 9 (1))	Mae'r holl bolisiau wedi cael eu cwblhau ac mae copi caled ohonynt yn ffeil y salon.	Sarah Vant Wout	Cwblhawyd ar 28 Medi
19.	Dywedwyd wrthym nad oedd cwynion neu ganmolïaeth llafar yn cael eu cofnodi.	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi proses ar waith i gofnodi cwynion llafar ac ysgrifenedig.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru Rheoliad 24 (5))	Mae llyfr canmolïaeth/cwynion bellach ar waith yn y salon.	Sarah Vant Wout	Cwblhawyd ar 24 Medi
20.	Gwelsom dystiolaeth bod gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi'i gwblhau ar gyfer y rheolwr cofrestredig. Fodd bynnag, gwiriad	Rhaid i'r rheolwr cofrestredig gael gwiriad manylach gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a rhoi copi ohono i AGIC.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru 21 (2)(d))	Bydd hyn yn cael ei gwblhau cyn gynted ag y byddaf wedi dod o hyd i gwmni i ymgymryd â'r dasg hon.	Sarah Vant Wout	3 wythnos

sylfaenol oedd hwn ac roedd angen gwiriad manylach.					
---	--	--	--	--	--

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Sarah Vant Wout

Teitl swydd: Perchennog y salon / gweithredwr y peiriant laser

Dyddiad: 30/09/2025